# Cytundeb Cartref ag Ysgol

| Ysgol Bro Hyddgen | Fel rhiant/gofalwr gwnaf fy ngorau i: | Fel disgybl gwnaf fy ngorau i: | Fel ysgol gwnawn ein gorau i: |
|---|---|---|---|
| **Ethos** | • Annog fy mhlentyn i barchu disgyblion eraill ac i fod yn garedig<br>• Annog fy mhlentyn i wneud ei (g)orau glas<br>• Hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd | • Parchu disgyblion eraill ac i fod yn garedig<br>• Gwneud fy ngorau glas<br>• Gwneud yn fawr o fy sgiliau dwyieithog ac ymarfer fy nefnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg fel sy'n briodol | • Sicrhau bod y plant yn parchu eraill ac yn bod yn garedig<br>• Sicrhau bod y plant yn gwneud eu gorau glas<br>• Hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd<br>• Darparu cyfleoedd i'r plant ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg a'u Saesneg fel sy'n briodol |
| **Parod i'r Ysgol!** | • Danfon fy mhlentyn i'r ysgol yn lân a thaclus ac mewn gwisg addas<br>• Sicrhau fod offer addas gan fy mhlentyn ar gyfer diwrnod ysgol e.e gwisg Addysg Gorfforol/sbectol/ffeil | • Cadw fy hun yn lân a thaclus<br>• Dod â'r offer cywir ar gyfer gwneud fy ngwaith yn yr ysgol | • Hyrwyddo gwisg addas a glendid a thaclusrwydd personol<br>• Sicrhau bod y plentyn yn ymwybodol o'r offer sydd angen ar gyfer diwrnod ysgol |
| **Presenoldeb a Phrydlondeb** | • Sicrhau presenoldeb uchel (95%+) a phrydlondeb | • Mynychu'r ysgol yn feunyddiol ac yn brydlon | • Annog a gwobrwyo presenoldeb a phrydlondeb |
| **Gwaith Dosbarth a Chartref** | • Cymryd diddordeb yng ngwaith fy mhlentyn<br>• Annog fy mhlentyn i wneud ei (g)orau.<br>• Sicrhau fod fy mhlentyn yn gwneud y gwaith cartref hyd eithaf ei (g)allu<br>• Hyrwyddo darllen yn y cartref | • Gwrando ar yr athrawon<br>• Gweithio'n galed<br>• Gwneud yn siwr fy mod yn gwybod yn union beth yw'r dasg gwaith cartref cyn gadael yr ysgol, a'i dychwelyd ar amser ac yn daclus<br>• Gwneud yn fawr o bob cyfle posib i ddarllen | • Dysgu'n effeithiol ac yn bwrpasol<br>• Paratoi eich plentyn mewn ystod eang o destunau o fewn Cwricwlwm Cymru ac ar gyfer ei ddyfodol<br>• Gosod gwaith priodol a'i farcio'n ystyrlon ac yn rheolaidd<br>• Darparu adborth adeiladol sy'n dangos i'ch plentyn sut mae gwella<br>• Darparu cyfleoedd addysgol cyfoethog i'ch plentyn<br>• Darparu cyfleoedd i ddarllen |
| **Ymddygiad** | • Annog fy mhlentyn i feithrin a datblygu safonau uchel o ymddygiad bob amser | • Ymddwyn yn dda o fewn a thu allan i'r ysgol<br>• Dilyn rheolau'r ysgol a'r Polisi Ymddygiad | • Annog safonau uchel o ymddygiad yn unol â Pholisi Ymddygiad yr Ysgol |
| **Lles a Chymorth Bugeiliol** | • Hysbysu'r ysgol os oes problem sy'n debygol o effeithio ar addysg fy mhlentyn<br>• Parchu Polisi Iechyd & Diogelwch yr ysgol | • Gadael fy athro wybod os oes unrhyw broblemau gennyf cyn gadael yr ysgol<br>• Cydymffurfio â Pholisi Iechyd & Diogelwch yr ysgol | • Gwrando ac ymateb i broblemau a phryderon ar unwaith a gweithredu'n briodol<br>• Sicrhau diogelwch eich plentyn yn yr ysgol |
| **Cysylltiadau Cartref ac Ysgol** | • Mynychu cyfarfodydd rhieni<br>• Darllen pob llythyr o'r ysgol ac ymateb iddynt os oes eisiau<br>• Cefnogi'r ysgol i roi rheolau'r ysgol ar waith | • Dangos pob llythyr a roddwyd i mi gan yr ysgol i'm rhieni | • Cynnal cyfarfodydd rhieni yn rheolaidd<br>• Adrodd yn rheolaidd ar gynnydd, presenoldeb ac ymddygiad eich plentyn yn yr ysgol<br>• Eich hysbysu am unrhyw ofid sydd gennym ynglŷn â'ch plentyn |
| **Bywyd Allgyrsiol yr Ysgol** | • Cefnogi'r gweithgareddau mae'r ysgol yn eu cynnal, e.e cyngherddau, Ffair Haf | • Manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i mi yn yr ysgol, e.e nofio, cyngherddau | • Eich hysbysu am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal neu mae'r ysgol yn rhan ohonynt |
| **Llofnodion:** | **Rhiant/Gofalwr**<br>**Dyddiad:** | **Disgybl:**<br>**Dyddiad:** | **Ysgol:**<br>**Dyddiad: Medi 2016** |